
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 14 Rhagfyr 2023

Presenoldeb:

Cynghorwyr: Menna Baines, Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Sharon Warnes (Cadeirydd), Hywel Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caleb Lewis (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio), Eva Chan Williams (Arweinydd Archwilio) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 6: Alan Hughes, Yvonne Thomas a Lora Williams (Archwilio Cymru), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts a'r Cynghorydd Angela Russell

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12 Hydref 2023 fel rhai cywir.

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad

Nodyn: Cyflwyno i gyfarfod 8fed o Chwefror 2024,

- Datganiad Llywodraethu (adroddiad canol blwyddyn)
- Cyflwyno diweddariad ar drosgrwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd

6. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Croesawyd Alan Hughes, Yvonne Thomas a Lora Williams (Archwilio Cymru), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) i'r cyfarfod.

Adolygiad o Strategaeth Ddigidol – Cyngor Gwynedd

Adroddodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod yr archwiliad wedi cael ei gynnal ar amser anffodus (Mai 2023) oedd yn gwrthdaro gyda gwaith Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor wrth iddynt arwain ar lunio strategaeth newydd. Cyflwynwyd y Strategaeth Ddigidol newydd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym Medi 2023 lle derbyniwyd sylwadau defnyddiol am y cynllun cyn cyflwyno i'r Cabinet. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd canfyddiadau archwiliad Archwilio Cymru i ddefnydd digidol yn y Cyngor yn mis Hydref 2023, ac oherwydd y gwrthdaro, nid oedd yr adroddiad yn amlygu'r gwaith da roedd y Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi ei wneud i ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol. Cymeradwywyd y Strategaeth newydd gan y Cabinet yn Tachwedd 2023. Ateggodd bod tystiolaeth yn cyfiawnhau bod y Strategaeth yn un safonol a bod trigolion Gwynedd wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Adroddodd Swyddog Archwilio Cymru ar gyd-destun yr archwiliad gan nodi'r rheswm pam y cynhaliwyd yr archwiliad, ffocws yr archwiliad a'r canfyddiadau. Cyfeiriwyd at y darganfyddiadau, y tri argymhelliad a gynigwyd gan Archwilio Cymru ac ymateb y Cyngor i'r argymhellion hynny. Cydnabuwyd bod ffenest amser yr archwiliad wedi bod yn dynn a bod yr adroddiad wedi canolbwyntio ar dystiolaeth a ddatgelwyd ar y pryd. Nid oedd gan y Cyngor gynllun ffurfiol cyfredol ar gyfer datblygu ei wasanaethau digidol ar adeg cynnal yr archwiliad, gan fod cyfnod y "Strategaeth Ddigidol" flaenorol wedi dod i ben yn 2018.

Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i'r archwiliad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Fel Cadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor, diolchodd i'r Bwrdd am eu gwaith clodwiw ac amlygodd fod ymateb ysgrifenedig yn arddangos bod yr holl argymhellion eisoes wedi eu gweithredu neu yn dasg barhaus. Fodd bynnag, ategodd ei siom gyda chynnwys cyffredinol yr ymchwiliad. Nododd, ym Mawrth 2023 bod creu Strategaeth Ddigidol newydd wedi ei gynnwys fel un o flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 - 2028 ac eglurwyd y sefyllfa wrth Archwilio Cymru yn y gobaith y byddair archwiliad yn ychwanegu gwerth i'r Strategaeth derfynol. Amlygodd ei fod yn gwrthod sylw Archwilio Cymru o benderfyniad y Cyngor i beidio ag ymgynghori â'r cyhoedd i ddatblygu Strategaeth Ddigidol - nododd bod cyfnod ymgynghori wedi bod ar Gynllun y Cyngor a bod sefydlu Strategaeth yn rhan o'r Cynllun hwnnw. Amlygodd ei farn bod yr adroddiad yn creu cam argraff o ddatblygiadau yn y maes a bod angen osgoi hyn i'r dyfodol.

Rhodddwyd cyfle i Archwilio Cymru ymateb i sylwadau'r Cyfarwyddwr Corfforaethol. Nodwyd;

- Er ymgynghori ar Gynllun y Cyngor, y cynllun aymgyngorwyd arno yn eang ac felly dim ffocws digonol ar y maes digidol
- Diffyg tystiolaeth o ddadansoddi data, creu cyfleoedd gyda phartneriaid a monitro gwerth am arian - dim beirniadaeth yma ond cyfleoedd i wella ar gyfer y dyfodol. Angen sicrhau bod y Strategaeth newydd yn mabwysiadu'r elfennau hyn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen ffocws penodol ar waith digidol i sicrhau gwerth am arian
- Awgrym o gamddehongli rhwng y Cyngor ac Archwilio Cymru.
- Derbyn bod ffenestr dynn i'r archwiliad - cyfle rŵan i symud ymlaen gyda'r gwaith arbennig sydd wedi ei wneud yn llunio Strategaeth Ddigidol newydd
- Cynllun y Cyngor yn gynllun manwl a chynhwysfawr gydag amryw o flaenoriaethau. Efallai na fyddai'r Strategaeth Ddigidol wedi derbyn sylw digonol yma.
- Bod angen sicrhau bod adnoddau digonol, parhaol ar gael i gefnogi'r Strategaeth - **cynigiwyd y dylai'r pwyllgor gefnogi unrhyw fid am arian i gefnogi hyn**
- O ganlyniad i wahaniaeth barn a sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cyflawni - annog archwiliad pellach i roi sicrwydd pellach bod y Strategaeth Ddigidol yn cyflawni
- Er yn gefnogol i fidiau i wireddu'r strategaeth, rhwystredigaeth yw realiti'r sefyllfa ochr yn ochr â dyheuadau – adnoddau ddim ar gael i wireddu dyheuadau ac felly, i'r dyfodol, ystyried peidio mynegi dyheuadau yn y lle cyntaf.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut y byddai ymgynghori ar Strategaeth Ddigidol ar ben ei hun wedi bod yn fanteisiol, nodwyd y byddai wedi rhoi cyfle i randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ymateb yn benodol ee, i becynnau meddalwedd. Ategodd bod yr hen strategaeth ddigidol wedi dod i ben yn 2018 ac y byddai ymgynghori wedi rhoi ffocws ar siapiau'r gwasanaethau i'r dyfodol. Ategodd nad oedd Strategaeth 2018 yn gyfredol ac felly nid oedd tystiolaeth o adrodd ar gynnydd / gwerth am arian ers hynny - pwysig cael trefniadau monitro yn eu lle.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd yn cytuno gyda'r sylwadau ac amlygodd mai 'galluogwr' yw'r Strategaeth Ddigidol, wedi ei lunio i wireddu Cynllun y Cyngor a chefnogi gwaith y Cyngor yn hytrach na dogfen sydd yn sefyll ar ei phen ei hun. O ran sylw sicrhau gwerth am arian, cydnabyddwyd nad oedd y Strategaeth wedi ei hadnewyddu ers 2018, ac yn hynny o beth ei bod yn anodd deall sut y gellid monitro cyflawniad dogfen nad oedd yn bodoli.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sicrhau bod adborth yn cael ei gasglu o'r systemau sydd mewn lle ac os bydd y gwasanaethau eu hunain yn derbyn adborth o'r trefniadau, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai hyn yn rhan allweddol o'r gwaith. Amlygodd bod trefniadau herio a chefnogi perfformiad eisoes mewn lle ar gyfer pob blaenoriaeth gwella o fewn Cynllun y Cyngor yn ogystal ag ar gyfer cyflawniad gwasanaethau dydd i ddydd . Ategodd bod trefniadau monitro a gwerthuso ar sail bodlonrwydd cwsmer yn fesurydd a ddefnyddir gan nifer o wasanaethau er mwyn derbyn adborth i'r ddarpariaeth. Adroddodd bod derbyn adborth, dysgu gwersi a sicrhau gwelliannau parhaus yn ganolog i'r Ffordd Gwneidd o weithio.

Mewn ymateb i sylw am gefnogaeth i fidiau ariannol i gefnogi'r Strategaeth, amlygodd yr Aelod Cabinet Cyllid bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn eithaf difrifol. Ategodd y bydd angen i'r Gwasanaethau gyflawni'r gwaith monitro, ac er cytuno bod angen adnoddau ychwanegol, anodd fyddai gwireddu hyn. Ategodd y Pennaeth Cyllid bod cronfa arian unwaith ac am byth wedi'i sefydlu ar gyfer cefnogi gwaith tasg a gorffen sy'n perthyn i'r Strategaeth a bod bidiau am referniw parhaol eisoes wedi eu cyflwyno i wireddu elfennau eraill o'r Cynllun Digidol, ond pwysleisiodd, er y bydd y drefn bidiau yn cael ei hystyried, mai'r flaenoriaeth fydd ystyried beth sydd yn fforddiadwy. Petai'r Pwyllgor yn ystyried cefnogi bidiau ariannol ar gyfer gwireddu'r Cynllun Digidol, bydd angen edrych ar y darlun cyfan ac nid ar un mater penodol. Nododd hefyd bod angen sgwrs bellach ynglŷn â diffiniad 'gwerth am arian', hynny yw, trafod sut mae mesur gwerth am arian a chynhyrchiant o fewn Awdurdodau Lleol.

Disgynnodd y cynnig i'r Pwyllgor gefnogi bidiau referniw parhaol ar gyfer gwireddu'r Strategaeth Ddigidol

Diweddariad Rhaglen Waith ac Amserlen Ch2

Cyflwynwyd diweddariad chwarterol (hyd at 30 Medi 2023) o raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru. Trafodwyd y gwaith archwilio ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad lleol gan dynnu sylw at Adolygiad thematig - Gofal Heb ei Drefnu ac Adolygiad Thematig - Digidol gan nodi bod y gwaith casglu tystiolaeth yn parhau. Ategwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd a bod y gwaith o archwilio Cyfrifon Terfynol Cyngor Gwynedd bron a chael ei gwblhau - bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ionawr 2024.

Diolchwyd am yr adroddiad

Nododd y Cadeirydd ei siomedigaeth bod amserlen archwilio Cyfrifon Terfynol Cyngor Gwynedd wedi llithro er bod y wybodaeth wedi ei gyflwyno yn amserol

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiadau a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Adolygiad Strategaeth Ddigidol – cymeradwyo ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion Archwilio Cymru

7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL (1 Hydref 2023 – 30 Tachwedd 2023)

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarau'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2023 hyd 30 Tachwedd 2023. Amlygwyd bod 6 o archwiliadau o Gynllun Gweithredol 2023/24 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt wedi derbyn lefel sicrwydd digonol ac un wedi derbyn lefel sicrwydd uchel. Cyfeiriwyd at y gwaith sydd ar y gweill a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi / gynnig sylwadau am yr Archwiliadau a gwblhawyd.

Cymerodd y Rheolwr Archwilio'r cyfle i ddiolch i Bleddyn Rhys ac Eva Williams am arwain y gwasanaeth yn ystod ei habsenoldeb o'r gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â briff y pum archwiliad oedd yn ymwneud â chartrefi Gofal a chartrefi preswyl yn y Sir, ac os mai pwrpas yr archwiliad oedd gwirio llywodraethiant a strwythur y gofal, a oedd archwiliad pellach yn edrych ar feddyginiaethau a llesiant y trigolion, nodwyd bod yr archwiliadau hyn yn eang ac yn canolbwyntio yn bennaf ar risgiau i'r preswylwyr. Nodwyd bod yr asesiadau yn gwirio pecynnau gofal pob preswilydd, yn gwirio arbenigedd y gofal o ran cynnwys y pecyn gofal a sicrhau bod yr asesiadau risg wedi eu cwblhau. Ategwyd y byddai'r feddygfa leol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIBPC) yn cadw golwg ar yr elfennau meddygol ac addaswyd y gofal, ac Arolygaeth Gofal Cymru yn cadw golwg ar yr elfennau gofal a diogelwch.

Mewn ymateb i sylw y byddai'r Uned Archwilio yn edrych ar adroddiadau proffesiynol os bydd pryder yn codi wrth weithredu archwiliad yn y maes yma, nodwyd bod edrych ac ymateb i argymhellion adroddiadau diweddar yn rhan o'r gwaith maes.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarau'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd, hyd at 30 Tachwedd 2023 bod 47% o'r 30 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 14 wedi eu rhyddhau yn derfynol neu wedi cau.

Cyfeiriwyd at addasiadau â wnaed i'r Cynllun a hynny oherwydd cyfnod salwch hirdymor, gwyliau, salwch arall, hyfforddiant a chyfarfodydd, gan egluro ei bod yn anochel na ellid cynnal rhai archwiliadau oherwydd y rhesymau hyn. Penderfynwyd felly canslo 12 archwiliad ac addasu 3 hyd paratoi Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a sut fydd penderfynu canslo archwiliadau ac os yw hyn yn cael ei wneud yn seiliedig ar risg gyda bwriad o adolygu'r archwiliad yn y cylch nesaf o archwiliadau, cadarnhawyd bod y penderfyniad yn seiliedig gyda risg. Ategwyd y byddai archwiliadau sydd yn llithro yn cael eu cynnwys ar Gynllun 2024/25 ac os bydd eraill angen eu blaenoriaethau, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda phenaethiaid. I'r dyfodol, nodwyd bod bwriad i'r Cynllun fod yn fwy hyblyg a hyn oherwydd bod cynlluniau yn y gorffennol wedi bod yn rhwystredig a rhy sefydlog.

Mewn ymateb i'r sylwadau, awgrymwyd nodi mwy o wybodaeth / rhesymeg dros ganslo, ar yr adroddiad i'r dyfodol. Ategwyd y byddai modd i'r Pwyllgor roi mewnbwn ar yr agwedd 'seiliedig ar risg' pan fydd Cynllun 2024/25 yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Chwefror.

Mewn ymateb i bryder mai 47% o'r 30 archwiliad unigol sydd wedi eu cwblhau, amlygwyd bod proffil y dangosydd fesul chwarter yn nodi targed diwedd chwarter 3 yn 50%, felly 47% yn berfformiad cadarnhaol. Ategodd y Pennaeth Cyllid bod ganddo gyfrifoldeb fel Swyddog 151 i sicrhau ansawdd, ac er gwaethaf y flwyddyn heriol a gorfod canslo archwiliadau, roedd yn hyderus bod y tîm wedi cyflawni eu gwaith i'r safon gofynnol. Petai'r gwaith heb ei gwblhau i'r safon ddisgwyliedig, byddai dyletswydd arno i amlygu hynny.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio 2023/24

9. HUNANASESIAD O EFFEITHLONRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlinellu'r angen i'r Pwyllgor fel un sydd wedi ei ddynodi fel 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' gynnal hunanasesiad cyfnodol o'i effeithiolrwydd. Adroddwyd nad oedd y Pwyllgor wedi cynnal hunanasesiad ers Tachwedd 2018 a gan fod y Cyngor cyfredol bellach yn ei le ers blwyddyn a hanner ac aelodau newydd ar y Pwyllgor, mai amserol fyddai cynnal ymarferiad hunanasesiad.

Yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 (Mehefin 2012), nodir fod y Llywodraeth eisoes wedi cymeradwyo cyhoeddiad CIPFA, "Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities", ac yn cynghori awdurdodau lleol i fwrw golwg ar y dogfennau hyn fel rhai atodol i'r canllawiau statudol. Amlygwyd bod canllawiau CIPFA yn cynnwys arfau er mwyn cynorthwyo aelodau pwyllgorau archwilio i gynnal hunanasesiad ac y byddai canlyniad yr asesiad yma yn

dystiolaeth ar gyfer cofrestr risg y Cyngor (risg L18, Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu un ai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli) ac i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awgrymwyd trefnu gweithdy (cyn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol) fel cyfle i adolygu'r gwaith, bod yn agored a gwireddu potensial y Pwyllgor yn llawn. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau ystyried hwylusydd allanol i gynnal y cyfarfod.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- Amserol cynnal hunanasesiad
- Bod angen cynnal y cyfarfod wyneb yn wyneb cyn mis Mai 2024
- Cytuno, os oes adnoddau digonol, i gael hwylusydd allanol i arwain y cyfarfod fel bod modd i'r swyddogion gynnig mewnbwn
- Bod angen ystyried adborth o waith y Pwyllgor gan Wleidyddion ac Archwilio Cymru i'w gynnwys yn yr hunanasesiad

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad a chynnal hunanasesiad effeithlonrwydd, wyneb yn wyneb cyn Mai 2024

10. RHEOLAETH TRYSORLYS 2023 – 2024 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym Mawrth 2023 cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 2023 bod gweithgarwch benthycar Cyngor wedi aros o fewn cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ategwyd yr amcangyfrifir bod gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwylidig yng nghyllideb 2023/24.

Eglurwyd, yn y cyd-destun allanol, bod y cyfnod wedi bod yn un prysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wnaeth unrhyw sefydliad lle'r oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda hwy wedi methu â thalu nôl, ac roedd cyfraddau llog uchel wedi cynhyrchu incwm llog sylweddol. Cyfeiriwyd at y cefndir economaidd a nodwyd, yn y cyd-destun lleol, bod sefyllfa ar 30 Medi 2023 yn gryf iawn gyda'r Cyngor mewn sefyllfa buddsoddiadau net a hynny oherwydd lefel uchel o fuddsoddiadau a chyfalaf gweithredol sydd gan y Cyngor sy'n cynnwys arian y Bwrdd Uchelgais a'r Gronfa Bensiwn.

Yng nghyd-destun sefyllfa benthycar Cyngor, adroddwyd nad oedd unrhyw symud wedi bod yn lefel y benthyciadau yn ystod y 6 mis diwethaf gyda'r Cyngor yn parhau gyda'i strategaeth o ddefnyddio adnoddau mewnol cyn benthycar. Ategwyd bod cost benthycar wedi codi yn sylweddol yn ddiweddar oherwydd amodau'r farchnad ac felly bod y Cyngor mewn sefyllfa ffodus.

Yn nhermau gweithgareddau buddsoddi, cyfeiriwyd at y mathau o fuddsoddiadau y buddsoddir ynddynt sydd, yn unol â'r arfer, yn cynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu, awdurdodau lleol, cronfeydd marchnad arian, swyddfa rheoli dyledion a chronfeydd wedi'i pwlio. Adroddwyd bod y gyfradd banc sylfaenol wedi codi i 5.25% yn y cyfnod a'r dychweliadau wedi bod yn uchel. Ategwyd bod y Cyngor wedi buddsoddi £13m mewn cronfeydd cyfun, sydd yn £3m yn ychwanegol ers cyflwyno'r wybodaeth ddiwethaf. Nodwyd bod y cronfeydd wedi'i pwlio yn fuddsoddiadau tymor canolig / tymor hir sydd yn cynnig lefel incwm da iawn, a gyda lefelau arian y Cyngor yn iach, amlygwyd bod penderfyniad wedi ei wneud i fuddsoddi ymhellach ynddynt, ar gyngor Arlingclose.

Cadarnhawyd bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlygu rheolaeth gadarn dros yr arian, er nad oedd cydymffurfiaeth â dangosydd Datguddiad Cyfraddau Ilog. Eglurwyd bod y dangosydd wedi ei osod yn amodau Ilog is mis Chwefror 2023 ac felly'n rhesymol bod y symiau mor wahanol. Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gydag Arlingclose i osod dangosydd gwahanol ar gyfer 2024/25. Tynnwyd sylw at gyflwyniad Meincnod Atebolrwydd (liability benchmark), sy'n arf pwysig i sefydlu os yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly'n siapio'r ffocws strategol a'r penderfyniadau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

11. CYNGOR GWYNEDD – CYNLLUN MANWL ARCHWILIO CYMRU 2023

Adroddwyd gan y Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru bod y Cynllun Archwilio Manwl bellach wedi ei gyhoeddi. Eglurwyd bod y Cynllun yn amlinellu'r gwaith fydd yr archwilwyr yn ei wneud er mwyn cyflawni eu dyletswydd statudol sy'n cynnwys cadw llygad ar y risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd, sicrhau bod trefniadau gwerth am arian ar waith a chydymffurfio a'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni amcanion llesiant gyda pherthnasedd lefel sicrwydd wedi ei osod ar £5.387m.

Cyfeiriwyd at y risgiau i'r datganiadau sylweddol (Gwrthwneud gan y Rheolwyr) sydd yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol ynghyd a tri risg generig, oedd eto wedi eu cynnwys ymhob cynllun archwilio ac nid yn risg penodol i Wynedd. Tynnwyd sylw at y gwaith archwilio perfformiad arfaethedig ac nad oedd addasiadau i'r wybodaeth y cyflwynwyd yn y cynllun amlinellol.

Ategwyd bod y cynllun manwl hefyd yn cynnwys amserlen (bwriad cyflwyno adroddiad ar y gwaith o archwilio'r Datganiadau Ariannol i'r Pwyllgor, er nodi Tachwedd 2023, llithriad i Ionawr 2024), manylion y tîm archwilio a'r ffi archwilio o £381,197. Pwysleiswyd na all Archwilio Cymru wneud elw ar y gwaith a bydd rhan o'r ffi, os bydd cost cynnal yr archwiliad yn llai na'r hyn a amcangyfrifid, yn cael ei ad-dalu.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw bod archwiliadau generig yn creu lot o waith ychwanegol ac er derbyn bod posib rhoi ffocws ar y materion sy'n cael eu harchwilio, nid yw'r atebion yn generig, nodwyd, o fewn archwiliadau cenedlaethol nid yw'r ffocws lleol i Wynedd mor amlwg ond wrth weithredu'r archwiliadau thematig bydd tystiolaeth leol yn bwydo i mewn i'r adroddiad cenedlaethol fydd yn crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12:00

CADEIRYDD